# Cofrestrfa Tir EF

## Datganiad o wirionedd i gefnogi cais i ddileu cyfyngiad Ffurf A

# ST5

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Cyn y gellir dileu cyfyngiad Ffurf A yn y gofrestr perchnogaeth, rhaid i Gofrestrfa Tir EF fod yn fodlon nad oes angen y cyfyngiad mwyach. Yn aml, bydd hyn am nad yw'r tir bellach yn ddarostyngedig i ymddiried. Mae ymddiried tir yn bodoli pan fo perchnogaeth ffurfiol y tir (yr 'ystad gyfreithiol') ar wahân i'r berchnogaeth sylfaenol (y 'budd llesiannol').

Ni fydd angen y cyfyngiad mwyach os:

– yw'r budd a warchodwyd gan y cyfyngiad wedi dod i ben neu wedi pasio i'r perchennog(perchnogion) cofrestredig neu i oroeswr(wyr) y rhain, ac
– nad oes gan unrhyw un arall fudd llesiannol yn y tir, ac
– os oes dau neu ragor o berchnogion cofrestredig, eu bod yn dal y tir nawr ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain (a neb arall) fel cyd-denantiaid llesol. Rhaid i gydberchnogion ddal yr ystad gyfreithiol fel cyd-denantiaid, ond gellir dal eu buddion llesiannol naill ai fel cyd-denantiaid neu fel tenantiaid cydradd. Nid oes gan gyd-denantiaid gyfrannau penodol yn y tir. Ar farwolaeth un cyd-denant, mae ei fudd yn y tir yn pasio'n awtomatig i'r llall. Mae gan denantiaid cydradd gyfrannau penodol, y gellir eu trosglwyddo ar wahân, ac fe'u hetifeddir fel rhan o'u hystad ar eu marwolaeth. (Gweler www.gov.uk/cydberchnogaeth)

Os ydych yn credu nad oes angen y cyfyngiad mwyach ond nid oes modd ichi gadarnhau'r ddau ddatganiad ym mhanel 5 neu 6 isod, gallwch baratoi eich datganiad o wirionedd eich hunan yn seiliedig ar y geiriad yn y ffurflen hon, wedi ei ddiwygio'n briodol. Rhaid ichi ddarparu'r esboniadau sy'n ofynnol gan baneli 3 a 4 o hyd.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.cy.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| | | |
|---|---|---|
| Rhowch yr enw(au) llawn.<br><br>Rhowch y cyfeiriad(au) llawn. | 1 | Rwyf fi/Rydym ni:<br><br>o:<br><br>yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi cais i Gofrestrfa Tir EF i ddileu cyfyngiad Ffurf A. |
| Rhowch rif teitl Cofrestrfa Tir EF a chyfeiriad yr eiddo y mae'r cyfyngiad yn ei effeithio. | 2 | Rhif(au) teitl:<br><br>Eiddo: |
| Rhowch fanylion natur y budd(ion) sy'n cael ei amddiffyn gan y cyfyngiad a'r hyn sydd wedi digwydd i'r budd(ion).<br><br>Anfonwch gopïau o'r dogfennau, nid y gwreiddiol, ond cadarnhewch eu bod yn gopïau gwir trwy ysgrifennu ar ben tudalen 1: "Tystiaf fod hwn yn gopi gwir o'r gwreiddiol", yna llofnodwch eich enw a'i nodi mewn prif lythrennau, a dyddiwch eich llofnod. | 3 | Eglurwch yr hyn sydd wedi digwydd i'r budd llesiannol a warchodwyd gan y cyfyngiad. (Darparwch wybodaeth gywir a pherthnasol). Dylech gynnwys copïau ardystiedig o unrhyw ddogfennau yn dangos hyn. |

Rhaid i chi egluro sut y mae'r budd wedi pasio.

4 Os yw'r budd wedi pasio i'r perchennog neu berchnogion cofrestredig, neu oroeswr(wyr) y rhain, eglurwch sut y digwyddodd hyn. (Darparwch wybodaeth gywir a pherthnasol.)

**Lle mai dim ond un perchennog cofrestredig fydd yn aros ar y gofrestr, cwblhewch banel 5.**

**Ni all Cofrestrfa Tir EF ystyried y cais ar y ffurflen hon os nad ydych yn gallu cadarnhau'r ddau ddatganiad.**

5 Lle mai un perchennog cofrestredig sydd ar ôl:

☐ Rwy'n cadarnhau nad oes gan unrhyw un heblaw'r perchennog cofrestredig sydd ar ôl/sy'n goroesi fudd llesiannol yn yr eiddo mwyach.

**AC**

☐ Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw fudd llesiannol yn yr eiddo wedi ei forgeisio neu wedi ei arwystlo ar wahân, ac nad oes ac na fu unrhyw berchennog llesiannol yn ddarostyngedig i orchymyn tâl neu achosion methdaliad (nid yw morgais cofrestredig yn cyfrif).

**Lle bydd dau neu ragor o berchnogion cofrestredig yn aros ar y gofrestr, cwblhewch banel 6.**

**Ni all Cofrestrfa Tir EF ystyried y cais ar y ffurflen hon os nad ydych yn gallu cadarnhau'r ddau ddatganiad.**

6 Lle y mae dau neu ragor o berchnogion cofrestredig ar ôl:

☐ Rydym yn cadarnhau eu bod yn dal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain (a neb arall) fel cyd-denantiaid llesiannol.

**AC**

☐ Rydym yn cadarnhau nad oes budd llesiannol yn yr eiddo wedi ei forgeisio neu wedi ei arwystlo ar wahân, ac nad oes ac na fu unrhyw berchennog llesiannol yn ddarostyngedig i orchymyn tâl neu achosion methdaliad (nid yw morgais cofrestredig yn cyfrif).

Os gwneir datganiad ar y cyd gan ddau neu ragor o bobl, rhaid i bob un lofnodi'r datganiad hwn.

Os nad oes modd i rywun sy'n gwneud y datganiad hwn ei lofnodi neu ei ddarllen, bydd yn rhaid cynnwys trawsgludwr, ee cyfreithiwr, a fydd yn gorfod rhoi'r dystysgrif briodol fel sy'n ofynnol gan reol 215A (4), (5) a (6) o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Dylid cyflwyno'r ffurflen hon gyda ffurflen RX3 yng Nghofrestrfa Tir EF cyn gynted ag y gwneir y datganiad o wirionedd. Os na wnewch hynny, efallai y byddwn yn gofyn ichi ddarparu tystiolaeth gefnogol bellach bod y datganiadau a wneir ar y ffurflen hon yn parhau i fod yn wir hyd at naill ai'r dyddiad y caiff ei chyflwyno neu ddyddiad cwblhau unrhyw warediad cysylltiedig.

7 Credaf/credwn fod y ffeithiau a'r materion a gynhwysir yn y datganiad hwn yn wir

Llofnod(ion) (y sawl sy'n gwneud y datganiad hwn):______________________________

______________________________

Printiwch yr enw llawn:

Dyddiad:

RHYBUDD

Os yw'r cais yn mynd rhagddo, gall rhybudd o'r cais (gyda chopi o'r datganiad o wirionedd hwn) gael ei anfon gan y cofrestrydd at berchennog y tir neu unrhyw un y tybiwyd mai ef/hi yw'r perchennog a/neu unrhyw un arall y cred y cofrestrydd ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i roi rhybudd iddo/iddi.

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae’r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy’n ymwneud â chais a gyflwynir i’r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio a’u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i’r rhan honno o’r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 05/24